**Pwyllgor Datblygu Economaidd EDC 04-01 (Cofnodion)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 7 Mawrth 01 |
| **Amser** | 2.00-5.30pm |
| **Lleoliad** | Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. |

**Presenoldeb**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Val Feld (Cadeirydd) | Dwyrain Abertawe |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Glyn Davies | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Ron Davies | Caerffili |
| Mike German (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Sir Gaerfyrddin a De Sir Benfro |
| Alison Halford | Delyn |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

**Dirprwyadau**

Dirprwyodd Jocelyn Davies AC Dwyrain De Cymru dros Dafydd Wigley AC Caernarfon a anfonodd i ymddiheuro.

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Derek Jones | Uwch Gyfarwyddwr, Materion Economaidd, Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd |
| David Pritchard | Cyfarwyddwr, yr Adran Ddatblygu Economaidd |
| Emyr Roberts | Yr Is-adran Polisi Economaidd |
| Ron Loveland | Cyfarwyddwr, yr Is-adran Cystadleuolrwydd a Seilwaith |
| Anne Stephenson | Yr Is-adran Polisi Economaidd |
| Keith Parsons | Yr Is-adran Polisi Economaidd |
| Rachael Clancy | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |

**Cyfranwyr Allanol**

| | |
|---|---|
| Graham Moore | Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi Strategol y WDA |
| Philip Evans | Cadeirydd Bwrdd Croeso Cymru |

| | |
|---|---|
| Jonathan Jones | Prif Weithredwr Bwrdd Croeso Cymru |
| Steve Webb | Cyfarwyddwr Ymchwil a Chynllunio Corfforaethol Bwrdd Croeso Cymru |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Sian Wilkins | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1 - Sylwadau agoriadol y Cadeirydd**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gwahodd pobl i siarad yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Croesawodd Jocelyn Davies AC a oedd yn dirprwyo dros Dafydd Wigley AC.
2. Atgoffaodd y Cadeirydd yr Aelodau eu bod yn y cyfarfod blaenorol wedi trafod gwahodd Syr Brian Moffat i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. Dywedodd fod Corus wedi cysylltu â'r Pwyllgor ar ôl y cyfarfod, a hynny cyn mynd i gysylltiad â'r cwmni o gwbl. Yr oeddent wedi cynnig y dylai uwch reolwyr o'r cwmni, gan gynnwys aelod o'r bwrdd, gyfarfod â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd, yn hytrach na'r Prif Weithredwr Syr Brian. Er y byddai'r Aelodau'n falch o gael cyfarfod o'r math hwnnw, yr oedd yn bwysig ganddynt fod y cyfarfod yn un gyda'r rhai a allai drafod penderfyniadau'r cwmni. Mynegwyd y farn na ddylid ystyried cyfarfod o'r fath yn ddim ond modd i groesholi Corus ond yn gyfle i ofyn cwestiynau am yr hyn yr oedd ar y cwmni ei angen.
3. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n cylchredeg rhai cwestiynau posibl a rhai syniadau ynghylch y modd y gellid cynnal y sesiwn i'w hystyried gan yr Aelodau cyn i unrhyw gyfarfod o'r fath ddigwydd.
4. Awgrymodd y Cadeirydd, a chytunodd yr Aelodau, pe bai cyfarfod o'r fath yn digwydd, y gallent hefyd wahodd cynrychiolwyr o'r undebau i'r drafodaeth. Atgoffaodd yr Aelodau bod negodiadau'n dal i fynd ymlaen â'r cwmni a bod y rhain i fod wedi'u cwblhau tua diwedd Mawrth. Byddai angen rhoi ystyriaeth i hynny wrth benderfynu amser unrhyw gyfarfod; byddai angen iddynt hefyd ystyried a ddylid trefnu cyfarfod ar wahân ar gyfer y drafodaeth hon.
5. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd y cyfarfod hwn yn nacáu cynnal y drafodaeth arfaethedig ar wahân ar fesurau cymorth, os digwyddai'r cwmni fynd ymlaen â'i gamau bwriadedig.

**Eitem 2 – Adroddiad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**

1. Wrth ddiweddaru'r wybodaeth a oedd yn ei adroddiad, dywedodd y Gweinidog fod

Alpha Steel yng Nghasnewydd yn cau hanner ei weithrediad gan arwain at golli 88 o swyddi. Yr oedd hyn yn ganlyniad i gyflwr y farchnad a gormod o allu cynhyrchu. Gobeithiai'r cwmni adfer y swyddi gyda hyn.

2. Dywedodd fod yr Ysgrifennydd dros Fasnach a Diwydiant wedi cytuno i beidio â chyfeirio cais Glas Cymru i brynu Dwr Cymru i'r awdurdodau cystadleuaeth a bod y rheolydd wedi cytuno ar y newidiadau i'r drwydded a oedd yn ofynnol ar gyfer y pryniad. Bydd Sue Essex yn dosbarthu copi o'r rhybudd i Aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. Dosberthir manylion y trosglwyddiadau ariannol cyn i'r mater fynd gerbron y Cyfarfod Llawn.
3. Ynghylch y cychwyniad o glwy'r traed a'r genau, dywedodd fod y swyddogion yn ceisio asesu effaith economaidd y clefyd, a oedd yn effeithio nid yn unig ar gynhyrchwyr bwyd sylfaenol ond ar amrediad eang o ddiwydiannau o broseswyr i gludwyr a'r diwydiant twristiaeth. Dywedodd eu bod wedi dod i'r casgliad nad oedd modd, ar hyn o bryd, gynhyrchu amcangyfrif ystyrlon o gost yr effaith gyffredinol. Dywedodd ei fod yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar ddatblygiadau a'i fod mewn cysylltiad agos â'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth.
4. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwysig parhau i ddenu twristiaid i Gymru a dweud wrthynt fod y priffyrdd yn agored er y dylid osgoi ardaloedd gwledig diarffordd. Yr oedd yn ysgrifennu at y banciau gan ofyn iddynt ymdrin yn gydymdeimladol â busnesau yr oedd y cychwyniad yn effeithio arnynt. Dywedodd fod Banc Barclays wedi cynnig egwyl o dri mis i ffermydd oddi wrth ad-dalu benthyciadau a gobeithiai y byddai eraill yn dilyn ei esiampl ac y câi hynny ei ymestyn i'r sector twristiaeth.
5. Ynghylch y gwaith ymchwil i'r cyfle am amrywiadau cyllidol, yr oedd Price Waterhouse Coopers wedi'i benodi a gobeithiai'r Gweinidog dderbyn adroddiad cychwynnol oddi wrtho erbyn diwedd Mawrth. Cadarnhaodd hefyd fod lefel y prosiectau Amcan 1 a gymeradwywyd wedi codi i £131 miliwn.
6. Yn olaf, mynegodd y Gweinidog ei dristwch ym marwolaeth annhymig Ian Spratling, a wnaethai gyfraniad mawr i wasanaeth cyhoeddus yn ystod ei oes. Gobeithiai y byddai'r pwyllgor yn uno ag ef wrth fynegi eu cydymdeimlad â'r teulu.
7. Ategodd y Cadeirydd deyrnged y Gweinidog. Dywedodd fod Mr Spratling wedi gwneud cyfraniad mawr i ddatblygu economaidd yn Abertawe a de orllewin Cymru. Meddai ar allu unigryw i weithio gydag eraill yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol. Cytunodd y cyfarfod â'i hawgrym y dylai ysgrifennu ar ran y Pwyllgor gan fynegi eu cydymdeimlad â'i deulu.
8. Mynegodd Aelod bryderon ynghylch erthygl yn The House Magazine a ysgrifennwyd gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd. Dyfarnodd y Cadeirydd ei bod yn amhriodol trafod yr erthygl dan sylw ar yr adeg hon gan nad oedd ar yr Agenda a chan nad oedd yr holl Aelodau wedi'i gweld. Awgrymwyd y dylid cynnwys y mater ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod dilynol, os na fyddai wedi'i ddatrys cyn hynny. Cytunodd y Cadeirydd na ddylid ystyried ei dyfarniad yn gynsail a fyddai'n nacáu trafod eitemau brys nad oeddent ar yr agenda ar gyfer cyfarfod penodol, cyhyd â'i bod wedi cytuno arnynt ymlaen llaw.

9. Mewn trafodaeth bellach ar adroddiad y Gweinidog gwnaethpwyd nifer o bwyntiau:

- Dywedodd yr Aelodau fod digwyddiadau diweddar wedi tynnu sylw at bwysigrwydd y sectorau gwledig ac amaethyddiaeth i'r economi yng Nghymru. Nodwyd bod gorgyffwrdd rhwng cylchoedd gwaith y Pwyllgor Datblygu Economaidd a'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig a'i bod yn bosibl y byddai angen cynnal cyfarfodydd ar y cyd o bryd i'w gilydd.
- Cyfeiriwyd at y cyhoeddiad diweddar am golli swyddi yn Llanidloes a chadarnhaodd y Gweinidog fod hon yn ergyd drom i'r gymuned a'i fod yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar gynnydd ynghylch y camau a gymerid i liniaru effaith y digwyddiadau. Ychwanegodd fod y WDA yn weithgar iawn yn yr ardal hon ac y mabwysiadwyd dull gweithredu amlelfen. Byddai uwch swyddogion y Cynulliad yn pwyso a mesur y sefyllfa gyda'r cwmni a'r WDA yn y dyfodol agos.
- Gwnaeth sawl Aelod sylwadau ar lansio 'Wales World Nation' a ddisgrifiwyd yn ddigwyddiad hanesyddol oherwydd yr amrediad eang o wledydd a gynrychiolwyd. Cadarnhaodd y Gweinidog fod hyn yn gysylltiedig â'r rhaglen 'Brandio Cymru' gynharach ac y byddai'n trefnu i ddosbarthu nodiadau am y cyfarfod i'r Aelodau. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
- Wrth ateb cwestiwn ynghylch caniatâd ar y môr rhoddodd y Gweinidog wybod bod y mecanweithiau dan sylw yn gymhleth dros ben. Ychwanegodd ei bod yn bwysig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru achub y blaen yn y broses ymgynghori. Mae'n ceisio eglurhad pellach ynghylch yr hyn y gellir ei dderbyn ond nododd y gallai hynny ofyn adnoddau sylweddol.
- Cyfeiriodd Aelod at baragraffau 3 a 4 yn adroddiad y Gweinidog ynghylch pennu sgorau o dan y Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd a'r system apêl ar gyfer Amcan 1. Yr oedd hyn yn ymwneud â cham gweithredu a gododd o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Datblygu Ewropeaidd. Gofynnodd am eglurhad pellach ar y materion hyn. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**

Eitem 3 – Llythyr Arweiniad Strategol y WDA

1. Atgoffaodd y Cadeirydd yr Aelodau bod Cynllun Busnes y WDA wedi'i anfon atynt fel papur er gwybodaeth ac yr oedd y drafodaeth heddiw ar y Llythyr Arweiniad Strategol drafft.
2. Eglurodd y Gweinidog mai'r Llythyr yw'r fframwaith a ddefnyddia'r WDA wrth lunio ei gynllun corfforaethol. Yn wahanol i'r blynyddoedd blaenorol, byddai'r WDA yn cyflwyno ei gynllun corfforaethol yng Ngorffennaf fel y gallai'r cynllun borthi cylch y gyllideb ddiwedd yr haf.
3. Eglurodd Anne Stephenson y broses wedyn gan ddefnyddio'r Cylch Cynllunio ac Adrodd Enghreifftiol sydd yn y papur.

- Y cam cyntaf yw cyhoeddi'r Llythyr Arweiniad Strategol, y bydd y Gweinidog yn ei anfon at y WDA - Mawrth/Ebrill.
- Mae'r WDA yn llunio ei Gynllun Corfforaethol - Mai/Mehefin.
- Mae hwnnw'n porthi cylch y gyllideb yn yr hydref.
- Mae'r Awdurdod yn defnyddio hyn i ddatblygu ei Gynllun Busnes -Tachwedd/Rhagfyr.
- Bydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn cael golwg wedyn ar Gynllun Busnes y flwyddyn ddilynol. (Mae'r cynllun ar gyfer eleni, Ebrill 2001-02, gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar hyn o bryd fel papur er gwybodaeth.) - Ionawr/Chwefror
- Cytunir wedyn ar y targedau ar gyfer y flwyddyn ddilynol, h.y. 2002-03

1. Ychwanegodd y Gweinidog fod y Llythyr Arweiniad Strategol hwn ar gyfer y flwyddyn sydd yn dechrau Ebrill 2002. Am fod yr Adolygiad o Gymorth Busnes, y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol ac Adolygiad Pum-mlynyddol y WDA yn dal i fynd rhagddynt cynigiodd y dylai hwn fod yn llythyr interim gyda'r posibiliad o gyhoeddi llythyr pellach ar ôl cael gwybod canlyniadau'r adroddiadau hyn. Gwahoddodd yr Aelodau i anfon sylwadau ychwanegol ato erbyn 9 a.m., dydd Llun 12 Mawrth. **[Cam Gweithredu: Aelodau'r Pwyllgor]**
2. Yr oedd rhai Aelodau'n bryderus am na chynhwyswyd argymhellion yr Adolygiad o Gymorth Busnes, yn enwedig y rhai sydd yn ymwneud â'r Porth Cymorth Busnes a gwaith gyda phartneriaethau, ac awgrymodd Aelod y dylid newid paragraff 16.4 i sicrhau bod y WDA yn ymwybodol o'r cynigion a ddosbarthwyd ar gyfer ymgynghori. Cadarnhaodd y Gweinidog fod y WDA yn ymwybodol o gynnwys yr adroddiad ond ni ddymunai achub y blaen ar yr hyn a allai ddigwydd yn ystod y broses ymgynghori. Dywedodd y byddai newid i'r llythyr yn cael ei gyhoeddi i gymryd yr argymhellion terfynol i ystyriaeth.
3. Teimlai sawl Aelod fod y llythyr yn rhy hir ac yn arbennig fod rhestru 12 o flaenoriaethau yn rhy orchmynnol. Dylai roi arweiniad strategol a chaniatáu i'r Awdurdod ddehongli hynny yn ei Gynllun Corfforaethol. Dywedodd Aelod y dylid caniatáu i'r WDA fynd ymlaen i wneud ei waith, os bernir bod y dull presennol o'i ariannu'n dderbyniol a'i fod yn rhoi'r hyblygrwydd y mae arno'i angen.
4. Holodd Aelod ynghylch statws y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn y broses hon a dywedodd na fu erioed drafod ar un o'r datblygiadau pwysicaf a fandadwyd i'r Awdurdod (a oedd yn ei annog i sefydlu partneriaethau Amcan 1) mewn Pwyllgor nac mewn Cyfarfod Llawn. Dywedodd y Cadeirydd mai lle'r Gweinidog, yn ôl fel y gwelai hi'r mater, oedd penderfynu ar yr arweiniad a roddai i'r WDA. Awdurdodir y Pwyllgor i roi cyngor i'r Gweinidog ac, os yw'n dewis peidio â'i ddilyn, cânt hawl a chyfle i'w holi'n ddiweddarach.
5. Yn y drafodaeth yr oedd sawl blaenoriaeth ychwanegol y teimlai Aelodau unigol y dylid eu cynnwys yn y llythyr:

- Dylid sôn am rôl ddatblygol y WDA yn y cynlluniau Amcan 1, 2 a 3, ac mae angen i'r WDA nodi ymhle y mae'r angen mwyaf am arian gan ddatblygu, yn arbennig, strategaeth ar gyfer y Cymoedd.

- Dylid rhoi sylw i ddiffyg partneriaeth ranbarthol ar gyfer ynni.
- Dylid cyfeirio at ardal Bae Caerdydd a'r angen i'r WDA arwain er mwyn sicrhau nad yw'r prosiect cyfan yn colli ei fomentwm. Gwelir bod buddsoddi yn y brifddinas yn bwysig i Gymru gyfan. Anghytunodd rhai Aelodau a theimlent ei bod yn bryd lledaenu adnoddau ledled Cymru ac nad oedd hyn yn fater i'r llythyr arweiniad strategol. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn fater pwysig ond y gellid ymdrin â hyn yn ddiweddarach wrth drafod Adroddiad yr Archwiliad ar Fae Caerdydd.
- Dylid ymdrin â mater marchnata Cyllid Cymru, gan sicrhau bod yr arian yn cyrraedd y rhai sydd â'r angen mwyaf amdano.

1. Dywedodd y Gweinidog ei fod wedi nodi'r materion a godwyd, gan gytuno'n gyffredinol ac y byddai'n ystyried y materion hynny. Cytunodd mai rôl y Cynulliad oedd datblygu'r strategaeth gyffredinol ac y byddai'r WDA yn penderfynu ar faterion gweithredol oddi mewn i honno.
2. Wrth grynhoi, dywedodd y Cadeirydd fod cytundeb y dylai'r llythyr fod yn strategol. Dylid rhoi ystyriaeth i fater partneriaeth ar gyfer ynni a strategaeth i'r Cymoedd. Ynghylch y farn a fynegwyd ar Fae Caerdydd, nododd sylwadau rhai o'r Aelodau ond dywedodd ei bod o'i rhan ei hun yn anghytuno. Gofynnodd hefyd i'r Gweinidog ystyried adolygu'r llythyr i gynnwys cyfeiriad mwy penodol at yr argymhellion a wnaethpwyd yn yr Adolygiad o Gymorth Busnes

**Eitem 4 - Cynllun Corfforaethol Bwrdd Croeso Cymru**

1. Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau o Fwrdd Croeso Cymru a hysbysodd yr Aelodau bod yr eitem yn un ar gyfer cynnig sylwadau ar Gynllun Corfforaethol y Bwrdd ac nid i ystyried y llythyr Cylch Gwaith oddi wrth y Gweinidog.
2. Pwysleisiodd y Gweinidog fod yr weithdrefn hon yn wahanol i'r weithdrefn newydd a fabwysiadwyd ar gyfer y WDA ond hoffai symud tuag at ddull tebyg ar gyfer Bwrdd Croeso Cymru. Gofynnodd am sylwadau ar y llythyr Cylch Gwaith drafft.
3. Rhoddwyd cyflwyniad byr gan Philip Evans, Cadeirydd Bwrdd Croeso Cymru. Dywedodd nad oedd y cynllun corfforaethol a'r llythyr Cylch Gwaith drafft wedi'u cwblhau'n derfynol ac, yn wir, mae'n bosibl y bydd effeithiau'r cychwyniad o glwy'r traed a'r genau ar y diwydiant twristiaeth yn cael effaith ddifrifol arnynt. Yr oedd yn falch iawn o weld y cynnydd mewn cyllid o £30 miliwn a hysbysodd y Pwyllgor eu bod yn gofyn am adleoliad bach ar gostau oddi mewn i'r cyllidebau.
4. Yr oedd yn falch o hysbysu'r Aelodau y byddai mwy o bwyslais ar gymorth busnes, fel y cymeradwywyd ym Mawrth 2000, a byddai tîm newydd o 12 o gynghorwyr yn gweithio yn y maes yn weithredol o Fedi 2001. Byddai hyn yn creu arbediad o £100,000. Cyfrifoldeb y tîm fyddai hybu gwelliannau er mwyn gwella graddiadau ac nid oeddent yno i weithredu fel plismyn.
5. Ychwanegodd fod y cychwyniad o glwy'r traed a'r genau wedi cael effaith

ddifrifol ar y diwydiant twristiaeth gydag adroddiadau am golli swyddi bob dydd a'r diwydiant yn colli miliynau o bunnoedd bob wythnos. Byddai'n adrodd yn ôl yn rheolaidd drwy'r Gweinidog.

6. Mynegodd rhai Aelodau'r farn bod Bwrdd Croeso Cymru wedi derbyn sylw gwael yn y wasg ynghylch y partneriaethau twristiaeth. Mae llawer o anfodlonrwydd yn y rhanbarthau a rhai ofnau gwirioneddol yr ymddengys nad yw Bwrdd Croeso Cymru'n rhoi sylw iddynt. Teimlai rhai ei bod yn cymryd peth amser i ennill cefnogaeth pobl a bod llawer o bryder ynghylch colli swyddi yn y cwmnïau twristiaeth rhanbarthol ac yn sgîl terfynu'r contract Gwasanaethau Twristiaeth o Safon. Atgoffawyd y Pwyllgor gan Aelodau eraill fod Bwrdd Croeso Cymru'n gwneud yr hyn y mae gwleidyddion wedi gofyn iddo'i wneud ac y dylai'r Cynulliad roi cyfarwyddyd strategol. Bydd anawsterau bob amser wrth newid ond dylai'r Pwyllgor gynnig pob cefnogaeth ar gyfer y newidiadau.
7. Wrth ateb cwestiynau mwy cyffredinol oddi wrth yr Aelodau, rhoddodd y Bwrdd eglurhad ar y pwyntiau canlynol:

- Yr oedd y Bwrdd wedi'i gyfarwyddo gan Alun Michael i roi gwedd eglurach ar y strwythurau presennol. Mae'r ailstrwythuro'n golygu y bydd gwell cynrychiolaeth yn awr o'r diwydiant a'r awdurdodau lleol. Bellach mae 22 o gynrychiolwyr awdurdod lleol a 22 o gynrychiolwyr twristiaeth a fydd mewn sefyllfa i allu cyflwyno materion rhanbarthol.
- Er na allai'r Bwrdd roi sicrwydd pendant ynghylch colli swyddi yn y cwmnïau twristiaeth rhanbarthol, credai'r Bwrdd y byddai creu'r Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol yn arwain at gynnydd clir yn nifer y swyddi, nid colled. Bwriedir parhau i ariannu'r cwmnïau twristiaeth rhanbarthol tan fis Medi a bydd y cyllid trosiannol yn golygu yr aiff bron flwyddyn heibio cyn y daw'r ariannu i ben. Yr oedd hefyd yn bosibl y gallai'r cwmnïau twristiaeth rhanbarthol ddarparu gwasanaethau i'r partneriaethau ac os trosglwyddid unrhyw staff i wneud yr un gwaith byddai'r rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau - Gwarchod Cyflogaeth yn berthnasol iddynt. Gallai'r problemau anferth i'r sector a greir gan haint clwy'r traed a'r genau arwain at ymestyn yr amserlen hon.
- Ynghylch mater Gwasanaethau Twristiaeth o Safon a'r ffaith y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn fewnol, yr oedd pryder o du'r Aelodau am fater y gost a cholli swyddi. Dywedodd y Bwrdd nad oedd hyn yn ymarfer a oedd yn ymwneud â chostau'n unig ond yn un y teimlwyd ei fod yn angenrheidiol er mwyn gwella lefel y cymorth busnes. Yr oedd y contract Gwasanaethau Twristiaeth o Safon yn dod i ben ac mae'r Bwrdd wedi penderfynu peidio â'i adnewyddu.

- Wrth ateb cwestiwn ynghylch costau rhedeg, cadarnhaodd y Bwrdd ei fod yn awyddus i gynnwys cost y tîm cymorth busnes yng nghostau'r rhaglenni yn hytrach nag yn y costau rhedeg. Mae'r adolygiad pum-mlynyddol o Fwrdd Croeso Cymru i fod i ddechrau ym Medi a gobeithir y bydd yn ategu'r farn honno. Ni fu ad-drefnu ar y Bwrdd ers 1983 ac yr oedd cyfle i wneud hyn ac angen am hyblygrwydd. Enghraifft o hynny yw mai dim ond un cynrychiolydd sydd gan Fwrdd Croeso Cymru dramor ac mae'r Bwrdd yn awyddus i ddatblygu'r rhan hon o'i waith.
- Ynghylch mater cofrestru gorfodol, yr oedd y Bwrdd wedi trefnu cynhadledd i drafod hyn ymhellach ond yr oedd y cychwyniad o glwy'r traed a'r genau yn golygu ei bod wedi'i diddymu. Cafwyd derbyniad da iawn iddo ymysg cwmnïau, a dros 500 wedi'i dderbyn.
- Mynegodd rhai Aelodau bryder ynghylch y cychwyniad o glwy'r traed a'r genau a'i effaith ar ymwelwyr â Chymru. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod ymgyrch werth £1 miliwn yn barod, i ddweud wrth ymwelwyr fod Cymru'n lle diogel i ddychwelyd iddo. Mae Bwrdd Croeso Cymru'n awyddus i newid y diwylliant marchnata o un lle y ceir hyrwyddo yn ystod Ionawr yn unig.
- Bydd y Systemau Rheoli Cyrchfannau – canolfan alw "dan un to" – yn weithredol erbyn diwedd y flwyddyn hon.
- Mae Bwrdd Croeso Cymru'n awyddus i hybu twristiaeth ddiwylliannol, gan olygu diwylliant yn ei ystyr ehangaf, ac i ddatblygu strategaeth ddigwyddiadau sydd yn cynnwys digwyddiadau diwylliannol a chwaraeon.
- Mae Bwrdd Croeso Cymru'n derbyn nad yw brandio'n ymwneud ag is-bennawd, a bod rhaid iddo fod yn amlweddog a chynnwys pethau fel traftadaeth, technoleg, a.y.b.
- Gofynnodd Aelod i Fwrdd Croeso Cymru ystyried y farn y dylid hyrwyddo Cymru fel cyrchfan ryngwladol, yn hytrach nag fel rhan o'r DU. Holwyd hefyd ynghylch y cysylltiadau sydd ganddo ag addysg, drwy hyrwyddo Cymru dramor fel canolfan dysgu a hefyd drwy hyrwyddo twristiaeth fel gyrfa oddi mewn i Gymru.
- Dywedodd Aelod fod llythyr y Cylch Gwaith yn rhy hir o lawer.

1. Ychwanegodd y Gweinidog fod dau faes allweddol i'w datblygu, sef gwella ansawdd y cynnyrch a marchnata Cymru'n gadarn. Manteisiodd ar y cyfle hefyd i ddiolch i John Cory, cyfarwyddwr cyllid Bwrdd Croeso Cymru am ei waith yn y gorffennol. Mae'n ymddeol yn yr wythnosau nesaf hyn ar ôl 31 o flynyddoedd o wasanaeth i Fwrdd Croeso Cymru.
2. Wrth grynhoi, diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr Bwrdd Croeso Cymru am eu cyfraniad. Ychwanegodd fod gwaith i'w wneud o hyd wrth ddatblygu cynnyrch twristiaeth a hoffai weld hynny yn llythyr y Cylch Gwaith. Cadarnhaodd fod y Pwyllgor yn cefnogi gwaith Bwrdd Croeso Cymru ond ychwanegodd ei bod yn bwysig ganddi na châi'r momentwm newydd mewn twristiaeth ei bylu gan sylw gwael yn y wasg neu broblemau ynghylch diswyddiadau.

**Eitem 5 - Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer Adolygiad Polisi'r Pwyllgor Datblygu Economaidd**

1. Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi dod i weld yn ystod y trafodaethau ar y Flaenraglen Waith fod yr Aelodau o'r farn yn gyffredinol mai astudiaeth o bolisi ynni oedd y pwnc priodol ar gyfer adolygiad nesaf y Pwyllgor. Felly yr oedd hi a'r Clerc wedi paratoi cynnig manylach i'w drafod gan yr Aelodau.
2. Dywedodd Aelod ei fod yn credu y dylai'r Pwyllgor ystyried yn gyntaf a oedd materion eraill y dylid eu hadolygu – fel y costau a wynebir gan fusnesau drwy osod trethi busnes a threthi a gymeradwyir gan y Llywodraeth, neu'r baich rheoleiddiol ar fusnesau. Cydnabu'r Aelodau fod y rhain yn faterion a achosai bryder gwirioneddol a bod cyfiawnhad o bosibl dros drefnu i gyfarfod â grwpiau busnes i drafod y rhain. Er hynny, yr oedd polisi ynni wedi cael lle amlwg ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor ers y flwyddyn flaenorol ac yr oedd cytundeb cyffredinol mai hwn oedd y pwnc priodol ar gyfer adolygiad nesaf y Pwyllgor.

5.3 Yn y drafodaeth cytunwyd:

- dileu yn 6f ",despite … of Conservation, ".
- y dylid sefydlu Grwp Llywio i hwyluso'r broses o gyflawni'r Adolygiad ond y byddai'r Pwyllgor cyfan yn parhau'n gyfrifol am yr Adolygiad ac na châi ei rwymo gan benderfyniadau a wneid gan y Grwp Llywio.
- y dylai'r Pwyllgor Llywio gynnwys cynrychiolwyr o Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru.

4. Cytunodd yr Aelodau hefyd y dylent gymryd rhan mewn deialog â busnes ynghylch y materion sydd yn ei wynebu. Atgoffaodd y swyddogion yr Aelodau eu bod wedi addo dod yn ôl at y Pwyllgor ag adroddiad gwaith ar Well Rheoleiddio [**Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**]

**Eitem 6 - Bae Caerdydd**

1. Cyflwynodd y Cadeirydd y papur ar adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar Forglawdd Bae Caerdydd. Dywedodd fod y Clerc wedi'i baratoi er mwyn tynnu sylw'r Pwyllgor at y materion economaidd sydd yn deillio o'r adroddiad. Gwahoddwyd y Pwyllgor i ystyried a ddymunent gynnig unrhyw gyngor i'r Gweinidog i gynorthwyo ymateb y Cabinet.
2. Yn y drafodaeth yr oedd yr Aelodau'n derbyn yn gyffredinol ei bod yn bwysig manteisio ar y buddsoddiad a roddwyd i godi'r morglawdd. Yr oedd nifer o Aelodau o'r farn y dylid gadael hyn yn awr i gyrff fel y WDA a chyngor y ddinas fel na fyddai awgrym o unrhyw wanhau yn ardaloedd blaenoriaeth y Cynulliad sef Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.
3. Nododd yr Aelodau yr argymhelliad y dylid ymgymryd â gwerthusiad economaidd

o’r datblygiad, er y nodwyd bod cyfres o asesiadau economaidd wedi’u cynnal yn ystod oes y datblygiad gan fynd yn ôl mor bell â 1987. Mynegwyd y farn bod natur y prosiect hwn, a’i hanes, yn golygu y byddai’n anodd bellach ymgymryd â dadansoddiad gwrthrychiol o unrhyw fath arno. O dderbyn bod y prosiect wedi’i gwblhau bellach, gallai fod yn llawer mwy synhwyrol arbed y gost o ymgymryd â dadansoddiad o’r fath.

4. Mynegodd nifer o Aelodau bryder am fod y prosiect wedi costio mwy nag a ragwelwyd yn wreiddiol ond nodasant fod cywair y Pwyllgor Archwilio wrth ei drafod yn gadarnhaol ar y cyfan. Yr oedd yr Aelodau’n bryderus hefyd am gost a gwaith cynnal parhaus y morglawdd a’r bae, ac yn enwedig am yr ansicrwydd ynghylch ymrwymiadau a rhwymedigaethau posibl yn y dyfodol a allai ddod i ran y Cynulliad mewn nifer o senarios o’r gwaethaf a allai ddigwydd. Nodasant fod yr adroddiad yn tynnu sylw at nifer o faterion y dylai’r Cynulliad eu hystyried mewn prosiectau yn y dyfodol.
5. Dywedodd y Cadeirydd y byddai’n dosbarthu llythyr drafft arfaethedig i’w anfon at y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd i’r Aelodau gytuno arno. **[Cam Gweithredu: Cadeirydd/Clerc]**

**Eitem 7 – Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2001**

1. Cytunodd yr Aelodau fod y cofnodion yn gofnod cywir o’r cyfarfod ar yr amod y câi’r geiriau ‘does not necessarily mean a loss of jobs’ eu dileu ym mharagraff 2.8.

**Cam Gweithredu sydd yn Codi**

7.2 Dywedodd y Gweinidog y byddai datganiad yn y Cyfarfod Llawn y diwrnod canlynol ar gost sicrhau gêm derfynol cystadleuaeth Cwpan Lloegr ar gyfer Stadiwm y Mileniwm.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**